

## Adolygiad o'r Senedd 2026: Cynigion Diwygiedig

### Ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'r ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig

Annwyl Gomisiynwyr,

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig ar gyfer ffiniau etholaethau Senedd Cymru 2026, hoffem ychwanegu at y sylwadau y gwnaethom mewn ymateb i'r Cynigion Cychwynnol.

Yn ein hymateb i'r Cynigion Cychwynnol, roeddem o'r farn bod y Comisiwn, yn y mwyafrif helaeth o achosion, wedi llunio ffiniau synhwyrol a realistig yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r manylebau ar gyfer ffiniau 2026. Rydym yn dal i gredu bod hyn yn wir.

Fe wnaethom ddadlau dros ailystyried y ffiniau yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar baru Sir Feirionnydd Ynys Môn-Dwyfor, ac rydym yn amheus bod y ddeddfwriaeth yn gofyn am baru Ynys Môn-Bangor Aberconwy. Fodd bynnag, rydym yn deall rhesymau'r Comisiwn yma.

Yr unig newid sylweddol yn y Cynigion Diwygiedig oedd i'r seddi yn ardal Caerdydd, a dymunwn ailadrodd ein barn bod y Cynigion Cychwynnol yn cynnig y trefniant mwyaf addas ar gyfer y seddi hyn, h.y. 'paru' Gogledd Caerdydd-Dwyrain Caerdydd a Gorllewin Caerdydd-De Caerdydd a Phenarth.

Rydym eisiau cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn ardal Caerdydd yn gryf a gwrthwynebu'r Cynigion Diwygiedig. Cefnogwyd y Cynigion Cychwynnol yn gryf yn y cylch ymgynghori blaenorol ac maent yn rhoi ffin gliriach, fwy naturiol rhwng etholaethau na'r ffin artiffisial yn y cynigion diwygiedig. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd y gynrychiolaeth y bydd Aelodau dyfodol y Senedd yn gallu ei ddarparu.

Mae etholaethau San Steffan, Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd, wedi'u cydgysylltu ac yn paru'n etholaethau'n synhwyrol yn y Senedd:

- Mae Cyncoed yn llifo'n naturiol i wardiau cyfagos y Mynydd Bychan a Llanisien - mae gorsafoedd rheilffordd y Mynydd Bychan ar y ffin rhwng Cyncoed a'r Mynydd Bychan, er enghraifft
- Mae Pentwyn yn llifo i Bontpennau, gyda'r Waitrose lleol yn gwasanaethu'r ddwy gymuned
- Mae Llanrhymini yn llifo'n naturiol i Hen Laneirwg, gyda ward Llanelirwg/Trowbridge hefyd gerllaw

I'r gwrthwyneb, mae ffin naturiol glir (h.y. Afon Taf) yn rhannu Gogledd Caerdydd oddi wrth Orllewin Caerdydd, gyda dim ond nifer fach iawn o bontydd dros yr afon rhwng y ddwy etholaeth.

Mae ffin glir hefyd os o waith dyn wedi'i gwneud rhwng etholaethau Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn y rhan fwyaf o leoedd

- Mae'r brif reilffordd sy'n mynd rhwng Sblot ac Adamsdown, yn rhwystr sylweddol ac o ganlyniad, ychydig iawn o gysylltiadau sydd rhwng y ddwy gymuned.
- Mae yna hefyd reilffordd sy'n creu ffin glir rhwng Cathays a Phlasnewydd.

Yn anad dim, nodwn fod y cynigion cychwynnol i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth wedi derbyn 59 o sylwadau o blaid a 28 yn erbyn. Cafodd y cynnig i baru Dwyrain Caerdydd â Gogledd Caerdydd 32 o sylwadau o blaid a dim ond 16 yn erbyn. Roedd y rhain ymhlith y cynigion a gefnogwyd fwyaf yn yr ymarfer ymgynghori, ond fel y gwyddoch chi, mae cynigion ffiniau yn aml yn cael tipyn o wrthwynebiad. O ystyried y cyd-destun hwn a'r cyd-destun daearyddol wedi'i ddarparu uchod, byddem yn eich annog i ddilyn eich dyfarniad cychwynnol a dychwelyd i'r cynigion gwreiddiol.

Nid ydym eisiau gwneud unrhyw sylwadau ar enwi seddi.

Hoffem ddiolch i staff y Comisiynwyr a'r Comisiwn am eu gwaith ar yr adolygiad.

Yn gywir



**Prif Weithredwr, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**